

## **RHAGLEN**

### **DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – GORFFENNAF/AWST 2019**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. **CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN GORFFENNAF AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2019/20**

Derbyn a chydabod cyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

5. **CAIS I GYFLWYNO ARWYDDLUN Y DREF**

Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Theatr Gymunedol Clwyd i'r Maer gyflwyno arwyddlun i Ffederasiwn Gwyliau Drama Gymunedol y DU ar achlysur cystadleuaeth genedlaethol sy'n cael ei chynnal yn Theatr y Pafiliwn yn y Rhyl ym mis Mehefin 2020.

6. **CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR - TOGETHER IN DEMENTIA EVERYDAY (TIDE)**

Derbyn adroddiad llafar gan Glerc y Dref mewn perthynas â chais gan TIDE i wneud cyflwyniad i'r Cyngor Tref.

7. **EITEMAU GAN AELODAU**

- (i) Y Cynghorydd J. Ball – Cais bod y cyngor yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ffrydio byw a recordio cyfarfodydd y Cyngor Tref yn debyg i Gyngor Sir Ddinbych.
- (ii) Y Cynghorydd T. Thomas – Gofyn am gefnogaeth i'r cyngor ystyried trosglwyddo perchnogaeth Canolfan Gymunedol Tynewydd i Gymdeithas Gymunedol y Rhyl.

**8. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manyllion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**10. COEDEN NADOLIG 2019/20**

Cadarnhau trefniadau ar gyfer darparu coeden Nadolig yng nghanol y dref.

**11. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.